



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**









Cynllun Corfforaethol

// 2014-2017



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

| | |
|---|----|
|  Rhagair | 03 |
|  Ein Diben... | 04 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 06 |
| Y Cynllun hwn | 06 |
| Risgiau, Pwysau a Chyfleoedd | 07 |
| Ein Pobl | 08 |
| Ein Cyllid | 09 |
| Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym ni'n gweithio | 11 |
| Sut rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru | 11 |
| Yr Achos Busnes ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru | 12 |
| Cynllunio Adnoddau Naturiol mewn modd Integredig a Dull Rheoli ar lefel yr Ecosystem | 13 |
| Ein pum rhaglen 'Dda' | 13 |
|  Gwybodaeth Dda | 14 |
|  Amgylchedd Da | 18 |
|  Da i Bobl | 23 |
|  Da i Fusnes | 28 |
|  Sefydliad Da | 33 |
|  Pa mor dda ydym ni'n gwneud? Rhoi gwybod am ein cynnydd | 37 |

// Rydym ar siwrnai
hir, nad yw ond
yn dechrau...

Rhagair

Amgylchedd Cymru yw un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr. Caiff ei drysori gan bobl Cymru a'r tu hwnt am ei fywyd gwyllt, ei dirweddau a'i forweddau, ac mae'n hanfodol oherwydd y gwasanaethau amrywiol y mae'n eu darparu - bwyd a dŵr, ynni, hyd yn oed yr aer yr ydym yn ei anadlu. Ein hamgylchedd yw'r man lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae; mae'n rhan o'n diwylliant ac yn allweddol i'n ffyniant economaidd a'n hymdeimlad o gymuned. Mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i ofalu am amgylchedd Cymru, a'i hadnoddau naturiol, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ond mae'r rhain yn adegau heriol - mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, y gostyngiad mewn bioamrywiaeth a statws ein hafonydd yn eistedd ochr yn ochr â materion fel gwella iechyd a lles pobl, mynd i'r afael â thlodi, a thwf gwyrdd - gan greu mwy o swyddi cynaliadwy i Gymru. Mae'r tywydd a gafwyd yn ddiweddar a'r achosion o glefyd coed llarwydd wedi crisialu rhai o'r sialensiau hyn inni. Mae angen inni allu defnyddio'n hadnoddau naturiol yn ddoeth ac effeithlon i wella ansawdd bywyd pobl Cymru, a chynyddu'r amrywiaeth yn ein hamgylchedd a'i gryfhau yr un pryd.

Rydym ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod cyfle arbennig i ymateb i'r sialensiau hyn - nid ar ein pen ein hunain, ond drwy weithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru, busnesau, y sector gwirfoddol, a chymunedau lleol. Gyda chynaliadwyedd yn egwyddor ganolog, gyda'n gilydd gallwn wneud Cymru yn genedl gryfach, mwy cydgysylltiedig a mwy llewyrchus.


I ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn, rydym wedi casglu amrywiaeth eang o wybodaeth a thystiolaeth ynghyd oddi wrth ein staff, ein rhanddeiliaid, ein cwsmeriaid, a phobl Cymru. Y llynedd aethom ati i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ac ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'n syniadau, ein blaenoriaethau a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn well yn y dyfodol. Roeddem yn fodlon â'r lefel o ymateb ac â'r gefnogaeth gyffredinol i'n cynigion. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol. Bydd yr adborth pwysig hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd yn ein gwaith yn y dyfodol.

Corff newydd ydym ni - dim ond blwydd oed a hwn yw ein Cynllun Corfforaethol cyntaf. Rydym ar siwrnai hir, nad yw ond yn dechrau. Mae'n ffocws ar gyflawni. Yn y flwyddyn gyntaf byddwn yn canolbwyntio ar weithio integredig a chydweithio, ac ar gynllunio a gwreiddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Byddwn yn gwireddu'r buddion a nodwyd yn y Cynllun Busnes o blaid sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru dros y deng mlynedd nesaf yn fras. Fe wnawn ni gyflawni ein diben - sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.

Gobeithiwn y bydd ein Cynllun Corfforaethol o ddiddordeb ichi ac yn llawn gwybodaeth. Ac rydym yn gobeithio gweithio gyda chi yn y dyfodol er budd amgylchedd a phobl Cymru.



Yr Athro Peter Matthews
Cadeirydd



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr

Ein Diben...

// yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.



Ein Diben...

// yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.

Rydym am i Gymru...

fod yn fan lle mae'r aer, y tir a'r dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Rydym yn defnyddio

- **Gwybodaeth Dda:** magu doethineb a dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol a sut rydym ni'n effeithio arnynt - gan ddefnyddio tystiolaeth a chymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy brofiad, fel ein bod yn gwneud penderfyniadau da


fel bod yr hyn rydym yn ei wneud

- yn **Dda i'r Amgylchedd:** bod ecosystemau yn gryf a diogel ar gyfer y dyfodol, bod bywyd gwyllt a thirweddau yn cael eu gwella, a bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus
- yn **Dda i Bobl:** bod pobl yn saff, ac yn mwynhau ein hadnoddau naturiol ac yn elwa ohonynt, ac yn deall eu perthnasedd i'n bywydau o ddydd i ddydd
- yn **Dda i Fusnes:** bod yn 'lleoliad delfrydol' i fusnes a menter, yn fan lle caiff yr arferion rheoli amgylcheddol gorau eu mabwysiadu a'u hannog

a'n bod ni yn

- **Sefydliad Da:** yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau creiddiol effeithiol; yn dryloyw yn ein penderfyniadau ac yn gwella'n gwasanaeth i gwsmeriaid a phartneriaid yn barhaus, gan feincnodi ein hunain yn erbyn y goreuon.

Mae'r pum 'Da' hyn yn arwain at bum Rhaglen 'Dda' sy'n cael eu defnyddio i drefnu ein gwaith. Mae perthynas agos rhwng y Rhaglenni 'Da' a'i gilydd; mae'r gwaith a wnawn ar un rhaglen yn darparu nifer o fuddion ac yn help inni gyflawni ein gwaith ar y rhaglenni eraill. Maen nhw'n gyd-ddibynnol ac yn drawsbynciol. Byddwn yn darparu'r budd mwyaf posibl ym mhob maes, nid dim ond ar ryw raglen 'Dda' neilltuol. Conglfaen y dull hwn o weithredu fydd cynllunio adnoddau naturiol mewn modd integredig - rhywbeth yr ydym yn ei ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.



// Mae Cynllun Corfforaethol 2014-17 yn nodi beth y bwriadwn ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf...

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a daeth i rym ym mis Ebrill 2013. Ymgwymerodd â'r rhan fwyaf o swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, yn ogystal â rhai swyddogaethau a arferai berthyn i Lywodraeth Cymru.

Mae gennym ystod eang o rolau a chyfrifoldebau:

Cynghorydd: prif gynghorydd Llywodraeth Cymru, a chynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, a chyfathrebwr ynglŷn â materion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol

Rheoleiddiwr: yn gwarchod pobl a'r amgylchedd, yn cynnwys diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff, ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau rydym ni'n gyfrifol amdanynt

Dynodwr: o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd o werth arbennig oherwydd eu bywyd gwyllt neu'u daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Ymatebwr: i ryw 9,000 y flwyddyn o ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n cael eu cofnodi, fel ymatebwr brys Categori 1

Ymgynghorai statudol: o ran rhyw 9,000 o geisiadau cynllunio y flwyddyn

Rheolwr/Gweithredwr: yn rheoli tua saith y cant o arwynebedd tir Cymru yn cynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, dŵr ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac yn rhedeg ein canolfannau ymwelwyr, cyfleusterau hamdden, deorfeydd a labordy

Partner, Addysgwr a Galluogwr: cydweithredwr allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn darparu cymorth grant ac yn helpu amrywiaeth eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; yn gweithredu fel catalydd i waith pobl eraill

Casglwr tystiolaeth: yn monitro ein hamgylchedd, yn comisiynu ac yn cynnal ymchwil, yn datblygu ein gwybodaeth, ac yn gweithredu fel corff cofnodion cyhoeddus

Cyflogwr: i bron i 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall drwy waith contract.

Y Cynllun hwn

Mae Cynllun Corfforaethol 2014-17 yn nodi beth y bwriadwn ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf, a cheir ynddo hefyd set o ddangosyddion yn dangos tueddiadau amgylcheddol ehangach yng Nghymru.

Mae gennym hefyd Gynllun Busnes blwyddyn gyda thargedau a mesurau sy'n mynd law yn llaw â'r Cynllun Corfforaethol ac yn rhoi mwy o fanylion.

Mae'r **dangosyddion** yn y Cynllun Corfforaethol yn ceisio monitro tueddiadau ar draws Cymru gyfan. Maent yn edrych ar **ganlyniadau** ac

// Gallwn ddefnyddio'n gwahaniaethau unigryw fel sefydliad i wneud y newidiadau a fynnir ohonom.

yn rhoi'r **darlun mawr** inni – beth sy'n digwydd yng Nghymru a'r tu hwnt. Nid ein cyfrifoldebau ni yn unig yw'r rhain. Mae ein gwaith ni yn gwneud cyfraniad, ond canlyniad gwaith amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, a newidiadau yn ymddygiad unigolion, ydyn nhw.

Mae'r **mesurau** yn y Cynllun Busnes yn edrych yn uniongyrchol ar yr hyn rydym ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud – **ein hallbynnau**. Mae nhw'n mesur ein perfformiad ni, mae nhw o fewn ein rheolaeth ni, ac rydym yn dangos hyn ar ffurf 'dangosfwrdd'.

Y Cynllun Corfforaethol a'i ddangosyddion, ynghyd â'r Cynllun Busnes a'i fesurau, fydd yn llunio ein **Fframwaith Perfformiad**. Wedyn gallwn fonitro'r hyn rydym ni'n ei wneud ein hunain a'r darlun ehangach yng Nghymru, i sicrhau bod ein gwaith yn wir yn gwneud y gwahaniaeth yr ydym am ei wneud.

Nododd y Cynllun Busnes ar gyfer sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o arbedion a buddion y mae angen inni eu gwireddu wrth i'n sefydliad ddatblygu, ac mae'r rhain yn cael eu hamlygu yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes.

Er ei fod yn cwmpasu tair blynedd, rydym yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Corfforaethol treigl, gan ddarparu diweddariadau yn ôl y gofyn. Ar ôl y cyfnod cyntaf hwn o dair blynedd, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Corfforaethol treigl pum mlynedd, a fydd yn cyd-fynd ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a newidiadau yn y weinyddiaeth. Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Busnes bob blwyddyn.

Risgiau, Pwysau a Chyfleoedd

Mae gennym ddiben arloesol a sialensiau tymor byr sylweddol wrth ddatblygu ein gallu i weithredu'n annibynnol yng Nghymru. Yn yr achos o blaid ein sefydlu, nodwyd amryw o fuddion ac arbedion effeithlonrwydd ariannol y bydd angen inni ddangos yn glir ein bod wedi'u cyflawni.

Yn ogystal â sialensiau unigryw, rydym hefyd yn rhannu'r pwysau ehangach sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae ymdopi mewn oes o galedi ariannol yn gyfrifoldeb ychwanegol; felly hefyd ffyniant economaidd ehangach y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu ac yn gweithio gyda nhw. Er gwaethaf y cefndir hwn, mae gennym gyfleoedd gwych i fanteisio arnynt. Gallwn ddefnyddio'n gwahaniaethau unigryw fel sefydliad i wneud y newidiadau a fynnir ohonom. Byddwn yn mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn sail i'n holl benderfyniadau ar bob lefel – pa un a ydym yn pennu blaenoriaethau neu'n cyflawni gweithgareddau gweithredol penodol.

Mae gennym hefyd asedau heb eu hail yn adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru, llawer ohonynt o dan ein rheolaeth uniongyrchol ni. Gall yr asedau hyn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau drwy ein gwaith rheoli ni a thrwy gefnogi eraill wrth iddyn nhw gyflawni.

Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni'r hyn a ddisgwylir ohonom. Mae'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol hwn yn gam allweddol tuag at wneud i hyn ddigwydd.

// Rydym wedi ymrwymo i fod yn agos at ein cymunedau yng Nghymru.

Ein Pobl

Mae gennym bron i 1,900 o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru – gwyddonwyr, peirianwyr, coedwigwyr, rheolwyr amgylcheddol, arbenigwyr hamdden ac addysg, pobl sy'n gweithio gyda chymunedau lleol, yn ogystal â llu o bobl eraill sy'n galluogi'n sefydliad i weithio'n effeithiol ac effeithlon.

Rydym yn sefydliad newydd. Rydym yn gwybod pa fath o sefydliad yr hoffem fod, ond bydd yn cymryd amser inni gyrraedd yno. Drwy siarad â'n staff, rydym wedi datblygu'r set isod o werthoedd:

- **Angerddol ac uchelgeisiol** ynglŷn â'n gwaith a'r effaith bositif a gawn
- **Disgybledig a llawn ffocws** wrth flaenoriaethu a chyflawni
- **Yn ennyn ymddiriedaeth ac yn broffesiynol** yn ein perthynas â rhanddeiliaid, staff, a'u cynrychiolwyr
- Yn ymgymryd â'n gwaith gyda **synnwyr cyffredin** ac yn **gyfrifol** ac **atebol** am ein gweithredoedd.

Mae ein Strategaeth Pobl yn disgrifio sut rydym yn bwriadu gwella ein gallu a'n perfformiad, gweithio'n fwy hyblyg a datblygu ein sefydliad yn unol â'n busnes. Mae gennym hefyd gynllun gweithlu sy'n dangos sut bydd ein gweithlu yn newid dros amser. Mae partneriaeth wirioneddol â'r undebau llafur yn hanfodol – gydag amcanion sy'n cael eu rhannu, a pherthynas agored, lawn ymddiriedaeth.

Dros y tair blynedd nesaf rydym yn disgwyl gweld:

- Gostyngiad net yn ein gweithlu i 1,850 FTE yn unol â'n targedau arbedion effeithlonrwydd
- Cynnydd mewn ailhyfforddi a darparu sgiliau newydd wrth inni gynnig cyfleoedd i'n staff i newid y gwaith y maent yn ei wneud
- Gweithlu sy'n heneiddio sydd â chyfoeth o brofiad, sy'n golygu bod angen inni gynllunio'n ofalus ar gyfer y dyfodol ac ystyried cynlluniau lefel mynediad ar gyfer rolau allweddol.

Er mwyn newid a thyfu gyda'n blaenoriaethau busnes wrth iddynt ddatblygu, mae angen i bawb fod yn hyblyg, yn barod i ymateb ac yn glir ynglŷn â'n disgwyliadau perfformiad. Bydd dull newydd, syml o ymdrin â rheoli perfformiad yn chwilio am welliant parhaus, yn unol â'n gwerthoedd o fod yn uchelgeisiol a llawn ffocws. Byddwn yn buddsoddi yn ein pobl, fel eu bod yn dysgu a datblygu.

Mae llawer o'n staff ar draws Cymru yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ein helpu i gryfhau ein gallu dwyieithog ymhellach.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agos at ein cymunedau yng Nghymru ac rydym am adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gwerthfawrogi a chefnogi amrywiaeth a gweithredu i sicrhau cydraddoldeb i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010) yn hollbwysig a dyna fydd conglfaen ein Cynllun Cydraddoldeb. Rydym am ddod yn gyflogwr arfer da o safbwynt cydraddoldeb ac rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a hybu cydraddoldeb i holl ddinasyddion ac ymwelwyr Cymru.

Rydym am fod yn gyflogwr y mae pobl yn ei ddewis, gyda thâl ac amodau sy'n adlewyrchu ein hanghenion busnes, sy'n fforddiadwy, ac y cytunwyd arnynt gyda chynrychiolwyr undebau llafur mewn gwir bartneriaeth.

// Cafodd y Cynllun Corfforaethol cyfredol ei ddatblygu o fewn amgylchedd heriol yn ariannol.

Ein Cyllid

Cafodd y Cynllun Corfforaethol cyfredol ei ddatblygu o fewn amgylchedd heriol yn ariannol. Mae'r sector cyhoeddus wedi bod mewn cyfnod o galedi ariannol yn y blynyddoedd diwethaf a disgwylir i hynny barhau i'r dyfodol, hyd y gellir ei ragweld.


Mae ffocws ariannol y Cynllun Corfforaethol cyntaf ar ariannu'r sefydliad, yna newid Cyfoeth Naturiol Cymru i'w wneud yn sefydliad annibynnol, sy'n sefyll ar ei draed ei hun. Ar ôl y buddsoddiad cychwynnol hwn, caiff y buddion eu cyflawni yn y blynyddoedd i ddod fel y bydd y Cynllun Corfforaethol nesaf yn canolbwyntio ar sut y gellir ailfuddsoddi'r arbedion hyn er mwyn darparu buddion amgylcheddol ychwanegol.

I wireddu ein canlyniadau yn y cyfnod ariannol heriol hwn, bydd angen inni wneud y canlynol:

- **Cyflawni** arbedion pres ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn cyrraedd y targedau buddion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru dros ein 10 mlynedd gyntaf
- **Cynyddu i'r eithaf** y cyfleoedd incwm drwy ddatblygu ffyrdd arloesol o ymdrin â menter
- **Datblygu** dulliau cydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd, a sicrhau bod y buddion mwyaf posibl yn cael eu cyflawni gyda'n partneriaid
- **Blaenoriaethau** ein gweithgareddau ac ystyried ffyrdd gwahanol o'u hariannu.

Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol byddwn yn lleihau costau ein gwasanaethau corfforaethol er mwyn cyrraedd safonau meincnod y 'gorau yn y dosbarth'. Byddwn hefyd yn ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith i sefydlu ein gallu i weithredu'n annibynnol. Bydd yr arbedion a wnawn yn cael eu hailfuddsoddi wedyn i wella canlyniadau amgylcheddol.

Mae ein hadnoddau wedi cael eu rhannu ar draws ein pum Rhaglen 'Dda' yn 2014/15 fel a ganlyn:



Mae'r tabl isod yn crynhoi cyllidebau incwm a gwariant 2014/15.

| Crynodeb o Gyllideb 2014/2015 | £miliwn |
|--|------------|
| Incwm | |
| Cymorth Grant | 115 |
| Cynlluniau Ffioedd | 38 |
| Masnachol | 19 |
| Arall | 8 |
| Cyfanswm Incwm | 180 |
| Gwariant | |
| Costau Staff | 70 |
| Costau Gweithredol | 70 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cyn Riant Gyrrff | 12 |
| Prosiectau Cyfalaf | 28 |
| Cyfanswm Gwariant | 180 |

// Gall ein gwaith ddod â budd i'r amgylchedd, pobl, a busnes, yn yr un man ac ar yr un adeg yn aml.

Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym ni'n gweithio

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol; sefydliadau a rhwydweithiau ymbarél; cymunedau; yn ogystal â chyrrff academiaidd a phroffesiynol. Rydym yn gwneud cyfraniad pwysig i bob agwedd bron o fywyd Cymru. Rydym hefyd yn gweithio gydag eraill yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol i sicrhau bod ein gwaith 'trawsffiniol' yn briodol a chydgyssylltiedig. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid newydd a'n partneriaid presennol mewn ffyrdd arloesol fel y gallwn gyflawni mwy fyth gyda'n gilydd.

Rydym yn uchelgeisiol ond yn realistig. Mae'r sefyllfa ariannol yn gwneud inni ailasesu ein blaenoriaethau. Rydym wedi cael adborth rhagorol yn ystod y broses ymgynghori ac mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn rhoi'r cyfle inni i sicrhau ein bod yn hoelio'n hymdrechion ar wireddu'n canlyniadau drwy'n rhaglenni.

Er mwyn inni allu darparu cyfeiriad clir i'n busnes a, lle mae hynny'n bosibl, ailfuddsoddi mewn gweithgareddau newydd a ffyrdd newydd o weithio, rydym wedi nodi meysydd lle byddwn yn ceisio symleiddio'n gweithgareddau. Caiff y rhain eu dangos yn y cyflwyniad i bob rhaglen 'Dda'.

Sut rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gennym swyddogaethau sy'n annibynnol ar Lywodraeth, ac rydym yn ffurfio ein barn ein hun. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac mae gennym gyfres o ganlyniadau i Gymru y cytunwyd arnynt ac yr ydym yn eu rhannu:

- Gwella ein hamgylchedd
- Diogelu pobl
- Cefnogi menter a swyddi
- Gwella iechyd y genedl
- Lleoedd llewyrchus llawn addewid
- Sicrhau cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r canlyniadau hyn a rennir yn rhai trawsbynciol, fel y mae ein rhaglenni 'Da' a phopeth a wnawn. Gall ein gwaith ddod â budd i'r amgylchedd, pobl, a busnes, yn yr un man ac ar yr un adeg yn aml. Mae'r canlyniadau a rennir hefyd wrth galon y blaenoriaethau gweithredu a nodwyd yn 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus', y datganiad a wnaed yn hydref 2013 gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Y blaenoriaethau hyn yw twf gwyrdd, rheoli ein hadnoddau naturiol yn fwy effeithlon ac effeithiol, trechu tloidi a gwella cydnerthedd ac amrywiaeth ein hadnoddau naturiol.

// Mae sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn glir â newid mewn deddfwriaeth hefyd yn bwysig iawn

Mae cyfrannu tuag at wireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau cydranedig hyn yn ein gwneud yn rhan annatod o fywyd ehangach Cymru, yn rhoi inni ffocws parhaus, ac yn ein cysylltu â llu o bartneriaid. Mae ein gwaith yn cyfrannu nid dim ond at gynlluniau a strategaethau sy'n ymdrin â'r amgylchedd, newid hinsawdd a'r pontio i economi carbon isel, ond hefyd â'r strategaethau hynny sy'n delio ag iechyd a lles, tlodi, addysg, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chreu cymunedau cryf.

Mae sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn glir â newid mewn deddfwriaeth hefyd yn bwysig iawn, wrth i Filiau'r Amgylchedd, Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllunio, a Threftadaeth i gyd gael eu datblygu.

Rydym yn cael Llythyr Cylch Gwaith ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn nodi beth mae Llywodraeth Cymru am inni ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith cyfredol i'w weld yn yr adran cyhoeddiadau ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yr Achos Busnes ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn yr achos busnes a oedd yn sail i'r penderfyniad i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, nodwyd y buddion y bydd angen inni eu gwireddu yn ystod ein degawd cyntaf. Mae'r rhain yn rhan annatod o'n cynllunio corfforaethol a busnes ac maent yn gwasgaru ar draws ein rhaglenni. Mae disgwyl inni gyflawni tri math o fudd:

- **Cyflawni'n well dros Gymru:** fel bod ein gwaith yn cyd-fynd yn gliriach â blaenoriaethau Cymru, gyda datblygu cynaliadwy wrth galon popeth a wnawn
- **Gwell canlyniadau i Gymru:** fel ein bod yn darparu cyngor mwy cydgysylltiedig ac arweiniad cliriach yn ein rôl fel cynghorydd ac ymgynghorai statudol fel un sefydliad
- **Gwell gwerth am arian:** rydym yn disgwyl cynhyrchu buddion gwerth £158 miliwn dros ein 10 mlynedd gyntaf drwy fod yn fwy effeithlon o ganlyniad i uno tri chorff.

Byddwn yn monitro'r rhain yn fanwl yn erbyn yr achos busnes ac rydym eisoes wedi dechrau cyflawni'r buddion hyn.



// Yng Nghymru bydd mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn golygu ystyried yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na delio ag agweddau unigol ar wahân...

Cynllunio Adnoddau Naturiol mewn modd Integredig a Dull Rheoli ar lefel yr Ecosystem

Yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes rydym wedi cyfeirio at *Gynllunio Adnoddau Naturiol mewn modd Integredig a Dull Rheoli ar lefel yr Ecosystem*. Mae'r naill gysyniad yn ddibynnol ar y llall - y dull rheoli ar lefel yr ecosystem yw'r ffordd rydym ni'n meddwl am fapio'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol, tra mae cynllunio a rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig yn golygu sut rydym ni'n mynd ati i wneud hynny'n ymarferol.

Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem wedi cael ei ddiffinio gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel 'strategaeth i reoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd deg'. Mae hyn yn golygu bod pawb ohonom yn mynd ati mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i reoli'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.

Yng Nghymru bydd mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn golygu ystyried yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na delio ag agweddau unigol ar wahân; bydd yn golygu pwysu a mesur a phennu blaenoriaethau o ran y llu o alwadau sy'n cystadlu am ein hadnoddau naturiol.

Ein pum rhaglen 'Dda'

Mae ein pum rhaglen waith yn adlewyrchu natur drawsbynciol ein gwaith, gyda llawer o'n gweithgareddau yn helpu i wireddu nifer o ganlyniadau ar draws sawl rhaglen. Mae'n bwysig fod i'r gwaith a wnawn 'lwybr clir' neu 'llyn aur' o'r canlyniadau yr ydym yn eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru drwy ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes, yr holl ffordd drwodd at waith aelod unigol o'r staff.

Y Rhaglenni 'Da' hyn yw'r ddolen gyswllt rhwng cyflawni canlyniadau i Gymru a threfnu ein hunain fel corff newydd.

Ceir rhagor o fanylion yng Nghynllun Busnes 2014-15, sydd ar gael ar ein gwefan.



Gwybodaeth Dda...

// Beth mae 'Da' yn ei olygu: magu doethineb a dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol a sut rydym ni'n effeithio arnynt - gan ddefnyddio tystiolaeth a chymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy brofiad, fel ein bod yn gwneud penderfyniadau da.



Gwybodaeth Dda



Beth mae 'Da' yn ei olygu: magu doethineb a dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol a sut rydym ni'n effeithio arnynt - gan ddefnyddio tystiolaeth a chymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy brofiad, fel ein bod yn gwneud penderfyniadau da.


Sialensiau a Chyfleodd

Mae gwybodaeth yn dyngedfennol er mwyn inni gyflawni'n holl waith yn llwyddiannus. Mae'n bwysig fod pob penderfyniad a wneir sy'n effeithio ar amgylchedd Cymru yn cael ei seilio ar dystiolaeth gadarn. Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae yn hyn: cyfrannu i'r sylfaen tystiolaeth, rhannu ein gwybodaeth ag eraill, a darparu ffordd fwy cydgysylltiedig o gasglu tystiolaeth. Mae ein hygredded a'n hatebolrwydd am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd yn dibynnu ar wybodaeth.

Mae angen inni fod yn fwy arloesol, effeithlon ac effeithiol yn ein ffyrdd o gynhyrchu a defnyddio data os ydym i weithio cystal ag y gallwn o fewn ein cyllideb. Bydd gweithio'n helaeth drwy bartneriaeth yn sicrhau ein bod yn arddel yr egwyddor 'casglu unwaith, defnyddio droeon'. Mae hyn yn golygu y byddwn yn sefydliad wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn gwneud penderfyniadau tryloyw ac amserol dros Gymru, drwy ein gwybodaeth, ein tystiolaeth a'n profiad, gan ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol:

- Mewn partneriaeth ag eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig, byddwn yn datblygu dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig fel bod ein hadnoddau naturiol yn gallu parhau i'n cynnal yn y dyfodol. Byddwn yn treialu ac yn arddangos y gwaith hwn fel bod eraill yn gallu defnyddio'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu a'i gymhwyso i'w gwaith nhw
- Mewn partneriaeth ag eraill, byddwn yn adeiladu ein sylfaen tystiolaeth, yn sicrhau ei bod ar gael ac yn ei hadolygu'n barhaus, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, academia a'r sector gwirfoddol yn ogystal â defnyddio 'gwyddoniaeth y bobl'
- Drwy ddeall ein rôl yn darparu tystiolaeth, byddwn yn cynhyrchu gwybodaeth lle mae hynny'n briodol, ac yn helpu eraill os ydyn nhw mewn gwell sefyllfa i wneud ymchwil neu gasglu tystiolaeth berthnasol.



// Mae gwybodaeth yn dyngedfennol er mwyn inni gyflawni'n holl waith yn llwyddiannus.

Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono:

- Byddwn yn cysoni ein rhaglen fonitro lle mae hynny'n briodol er mwyn canolbwyntio ar yr hanfodion, a byddwn yn ystyried ffyrdd arloesol o gynyddu ein gwybodaeth. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill lle mae'n addas ac yn diwallu ein hanghenion
- Drwy ddefnyddio'r wyddoniaeth a'r ymchwil sydd ar gael yn unol â'n blaenoriaethau, dim ond lle rydym yn siŵr mai ni yw'r sefydliad iawn i lenwi unrhyw fylchau y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau
- Bydd ein modelu yn addas i'w ddiben a byddwn yn annog y sectorau academiaidd a phreifat i fuddsoddi er mwyn asesu'r gallu modelu yn strategol, ei adolygu a datblygu gallu newydd, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru.

Ein dangosyddion

Dangosydd Ka: Datblygu dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig

- Nifer y meysydd gwaith o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n adlewyrchu anghenion Cymru ac wedi'u seilio ar reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig
- Bydd y meysydd lle mae cynllunio adnoddau naturiol ar waith yn ddangosydd tymor hwy wrth i'r dull gael ei ddatblygu ac i Fil arfaethedig yr Amgylchedd ddod yn ddeddf.

Dangosydd Kb: Bod ein data yn cael ei ddefnyddio gan eraill i wneud penderfyniadau

- Nifer y setiau data crai a gyhoeddir i gael eu haildefnyddio gennym ni neu ar ein rhan
- Nifer y ceisiadau Mynediad at Wybodaeth.

Dangosydd Kc: Meithrin ein harbenigedd

- Byddwn yn meithrin ein sylfaen tystiolaeth, gan ddiogelu a defnyddio cyfalaf deallusol ein sefydliad a chynyddu lefel cymwysterau, aelodaeth broffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus ein staff.



Ein hymrwymiadau

K1: Byddwn yn datblygu'r ffordd y mae Cymru yn rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig, gan ddefnyddio rheoli ar lefel yr ecosystem fel sail i benderfyniadau drwy, er enghraifft:

- Weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu'r ffordd o weithio drwyddi draw
- Datblygu 'pecyn cymorth' i wreiddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli a chynllunio integredig ar adnoddau naturiol yn ein gwaith, gan gynnal tri threial mewn ardaloedd o gwmpas afonydd Dyfi, Rhondda a Thawe
- Rhoi cyngor ynglŷn â defnydd cynaliadwy o dir a dŵr a rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig fel bod arferion da yn ennill eu plwyf
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod y darpariaethau ynglŷn â rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig ym Mil arfaethedig yr Amgylchedd yn cael eu hategu mewn deddfwriaeth arall, fel Biliau Cenedlaethau'r Dyfodol, Treftadaeth, a Chynllunio, wrth iddynt gael eu datblygu.

K2: Byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o amgylchedd, economi a phobl Cymru, ac o le Cymru yn y byd, a byddwn yn parhau i adolygu ein tystiolaeth i wneud yn siŵr ei bod yn addas i'r sialensiau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru drwy, er enghraifft:

- Weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ganfod ffynonellau tystiolaeth, i ddeall ble mae'r bylchau a, lle gallwn gydweithio i lenwi'r bylchau hyn, i rannu gwybodaeth ac arbenigedd a chynorthwyo eraill i'w llenwi
- Adolygu ein strategaeth fonitro a chymhwyso argymhellion i'n gwaith gweithredol
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi ar gyfer adnoddau naturiol, yn cynnwys darparu adroddiad Cyflwr yr Amgylchedd ac, yn y tymor hwy, adroddiad Cyflwr ein Hadnoddau Naturiol, gydag adroddiad interim erbyn mis Tachwedd 2014.

K3: Byddwn yn datblygu ac yn rheoli sylfaen tystiolaeth gadarn i'n cynorthwyo yn ein penderfyniadau strategol a gweithredol ac yn sail i benderfyniadau a wneir gan eraill drwy, er enghraifft:

- Ddatblygu ein gallu modelu a rhagamcanu, a gweithio gydag eraill i gynyddu'n defnydd o dechnegau ar gyfer y dyfodol, pethau fel sganio'r gorwel a chynllunio senarios
- Datblygu ein gallu cymdeithasol ac economaidd a'n sylfaen tystiolaeth, i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a'r dull ecosystem, ac i helpu i ddeall a goresgyn rhwystrau rhag defnyddio'r amgylchedd sy'n wynebu gwahanol garfanau o gymdeithas a chymunedau lleol
- Datblygu ein gallu i egluro a chyfleu materion cymhleth yn well i ystod eang o randdeiliaid drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau a fformatau cyfathrebu, yn cynnwys canllawiau.

Adnoddau ar gyfer 2014-15:

Gwariant: £13 miliwn Staff: 185 FTE

Amgylchedd Da...

// **Beth mae 'Da' yn ei olygu:** bod ecosystemau yn gryf a diogel ar gyfer y dyfodol, bod bywyd gwylt a thirweddau yn cael eu gwella, a bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus.



Amgylchedd Da



Beth mae 'Da' yn ei olygu: bod ecosystemau yn gryf a diogel ar gyfer y dyfodol, bod bywyd gwyllt a thirweddau yn cael eu gwella, a bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus.

Sialensiau a Chyfleoedd

Mae ein hamgylchedd yng Nghymru yn wynebu llawer o sialensiau: effeithiau newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau, colli bioamrywiaeth, llygredd, a gwahanol ddefnyddiau ar dir a dŵr yn cystadlu â'i gilydd. Rhaid inni reoli ein hadnoddau naturiol i gwrdd â'r sialensiau hyn a gwneud ecosystemau yn gryfach, gan sicrhau ein bod yn cyflawni'n cyfrifoldebau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae newid hinsawdd yn real a rhaid i Gymru chwarae'i rhan; rhaid inni leihau ein cyfraniad i allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwarchod a gwella ein dalfeydd carbon. Rhaid i Gymru ymaddasu i'r canlyniadau yn deillio o newid yn yr hinsawdd a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl ac yn cael effaith fawr hefyd ar amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru. Mae achosion o blâu a chlefydau, fel *Phytophthora ramorum* mewn coed llarwydd, yn cynyddu, ac yn cael eu dwysáu efallai gan newid hinsawdd. Rydym am ddeall effeithiau newid hinsawdd a bod yn esiampl o ran sut mae rheoli tir a dŵr er mwyn ymaddasu i'w effeithiau a'u lliniaru. Byddwn yn cadw ein hôl troed carbon ni ein hunain mor fach â phosibl yn ein busnes o ddydd i ddydd.

Mae llawer o'n cynefinoedd a'n rhywogaethau bywyd gwyllt mewn trwbl, fel yr amlygwyd yn adroddiad Sefyllfa Byd Natur (2013); mae angen inni helpu i arafu colledion cynefin a bioamrywiaeth a, phan fo hynny'n bosibl, eu lliniaru, gan helpu i gyrraedd targedau bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a thargedau rhyngwladol. Mae angen hefyd inni ofalu am ein tirweddau gwarchoddedig, yn cynnwys AHNE, Parciau Cenedlaethol, a thirweddau hanesyddol.

Yn ystod 2013, bu tua 100 achos o lygredd sylweddol yng Nghymru, a dyfarnwyd fod 36 y cant o'n dyfroedd wyneb â statws ecolegol yn 'dda neu well'. Yn yr un cyfnod, roedd 92 y cant o ddyfroedd ymdrochi yn y dosbarthau 'da' neu 'ragorol'.

Mae'r sialensiau yn enfawr. Ni fydd yn hawdd gwneud cynnydd ac nid yw'r adnoddau gennym i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn ar ein pen ein hunain. Trwy wneud yn fawr o gyfleoedd i gydweithio y bydd gennym y gobaith gorau o reoli ein hamgylchedd yn gynaliadwy.

Trwy wneud yn fawr o gyfleoedd i gydweithio y bydd gennym y gobaith gorau o reoli ein hamgylchedd yn gynaliadwy.

Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol:

- Byddwn yn blaenoriaethu ein hymdrechion lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf
- Byddwn yn rhoi dull rheoli ar lefel yr ecosystem, a chynllunio a rheoli integredig ar adnoddau naturiol, ar waith wrth i'r gwaith hwnnw ddatblygu
- Byddwn yn defnyddio'r tiroedd a'r dyfroedd rydym ni'n eu rheoli i arddangos y dull gweithredu hwn
- Byddwn yn derbyn bod lledaeniad rhywogaethau estron neu achosion o glefydau yn gallu bod yn anodd eu rhagweld ac y gallai fod angen adnoddau ychwanegol os ydym i'w hatal rhag ymledu.

Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono:

- Byddwn yn adolygu ein gwaith rheoli tir a'n gweithgareddau gweithredol ac yn defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i gyflawni mwy gyda llai a gwneud hynny mewn partneriaeth ag eraill
- Byddwn yn adolygu ein gwaith ar ansawdd aer a'r cyngor strategol yr ydym yn ei ddarparu i awdurdodau lleol, ac yn defnyddio'n rôl reoleiddio i sicrhau'r perfformiad gorau gan y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio
- Byddwn yn targedu ein gweithgarwch gorfodi, arolygu a thrwyddedu mwyaf trylwyr at y rhai sy'n gweithredu islaw lefel gydymffurfio. Byddwn yn arddel cydnabyddiaeth sydd wedi'i hennill ac yn troedio'n ysgafnach gyda'r rhai y mae eu perfformiad ar lefel gydymffurfio, neu'n mynd y tu hwnt i hynny
- Byddwn yn adolygu'n polisi stocio eog ar afonydd Cymru ac un gweithredu unrhyw newidiadau a fydd yn cyflawni dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn well.

Ein dangosyddion

Dangosydd Ea: Yr amgylchedd ddyfriol

- Cydymffurfio â statws da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Dangosydd Eb: Rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy

- Ein bod yn gwybod bod coetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS).

Dangosydd Ec: Bioamrywiaeth

- Mynegeion poblogaethau adar a dangosyddion bioamrywiaeth eraill y Deyrnas Unedig ar gyfer safleoedd neu gynefinoedd, y mae modd eu dadgyfuno i lefel Cymru.

Dangosydd Ed: Newid Hinsawdd

- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

Dangosydd Ee: Amgylchedd morol, daearol a dŵr croyw

- Cyflwr nodweddion safleoedd Natura 2000 morol, daearol a dŵr croyw.

Ein hymrwymiadau

E1: Byddwn yn esiampl o ran rheoli'n gynaliadwy y tiroedd a'r dyfroedd rydym ni'n gyfrifol amdanynt, a byddwn yn helpu eraill i wneud yr un fath drwy, er enghraifft:

- Ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y tiroedd a'r dyfroedd rydym ni yn eu rheoli'n uniongyrchol, gan ddeall y cyd-destun y mae'r cynlluniau hyn yn perthyn iddo
- Sicrhau bod y tiroedd a'r dyfroedd rydym ni'n eu rheoli yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, yn cynnwys:
 - Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru
 - Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol sy'n eiddo inni/yr ydym yn eu rheoli'n uniongyrchol
 - Asedau hanesyddol
 - Asedau a gweithfeydd amddiffyn rhag llifogydd
 - Bwrdd Gwarchod Dyfrdwy
- Darparu pysgodfeydd cynaliadwy a'r rhaglenni cysylltiol, yn amodol ar gyllid.

E2: Byddwn yn helpu i warchod a gwella ansawdd aer, tir, môr a dŵr drwy, er enghraifft:

- Ystyried dulliau arloesol diwastraff a gweithio gydag eraill lle mae hynny'n briodol i roi Cyfarwyddbau'r Undeb Ewropeaidd a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a Chymru ar waith. Er enghraifft:
 - y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr
 - y Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi diwygiedig
 - y Gyfarwydddeb Cynefinoedd
 - Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol
 - Natura 2000
 - y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol
 a deddfwriaeth a chonfensiynau yn ymwneud â gwastraff ac ansawdd aer, megis y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd
- Dylanwadu ar ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth, rheoleiddio a pholisïau strategol ac arferion yn ymwneud â defnyddio tir yn gynaliadwy, yn cynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG), ac agweddau eraill o amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i risgiau a phroblemau yn deillio o blâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynnol
- Cyfrannu tuag at ddatblygu a gweithredu Rhaglen Bontio Forol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd.

E3: Byddwn yn chwarae ein rhan ac yn gweithio gydag eraill i atal colli bioamrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau y bydd ecosystemau yn gryfach erbyn 2020 drwy, er enghraifft:

- Chwarae ein rhan yng nghyflawni targedau Bioamrywiaeth Aichi a'r Undeb Ewropeaidd, yn rhan o'n hymroddiad i ddull yr ecosystem.
- Datblygu dulliau gwella rheolaeth ac adfer strategol ar safleoedd dynodedig Cymru, gan ganolbwyntio ar weithredu sy'n esgor ar y canlyniadau gorau, gan gynnwys cynlluniau fel y rhaglen LIFE N2K.
- Gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd â blaenoriaeth (fel mawn dwfn) a'u hadfer fel rhan o gynlluniau rheoli adnoddau naturiol seiliedig ar ardal.

E4: Byddwn yn helpu i wneud Cymru'n gryfach i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac effeithiau eraill, yn ogystal â chefnogi ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy, er enghraifft:

- Ddeall ein cyfraniad ni i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio'r tiroedd a'r dyfroedd rydym ni'n eu rheoli a'n hasedau eraill, a cheisio gosod esiampol o ran rheoli carbon
- Sicrhau bod ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn elfen greiddiol o'n holl feysydd gwaith
- Parhau â'n gwaith rheoli perygl llifogydd yng ngoleuni newid hinsawdd ac ystyried y perygl o lifogydd yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Rhoi atebion arloesol ar waith, a gweithio gyda'r amgylchedd naturiol i leihau'r perygl llifogydd mewn ardaloedd trefol a gwledig neu amaethyddol.

Adnoddau ar gyfer 2014-15:
Gwariant: £46 miliwn Staff: 571 FTE



Da i Bobl...

// **Beth mae 'Da' yn ei olygu:** bod pobl yn saff, ac yn mwynhau ein hadnoddau naturiol ac yn elwa ohonynt, ac yn deall eu perthnasedd i'n bywydau o ddydd i ddydd.



Da i Bobl

// Beth mae 'Da' yn ei olygu: bod pobl yn saff, ac yn mwynhau ein hadnoddau naturiol ac yn elwa ohonynt, ac yn deall eu perthnasedd i'n bywydau o ddydd i ddydd.

Sialensiau a Chyfleoedd


Mae potensial enfawr i ddefnyddio'n hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol i wella iechyd pobl a'r amgylchedd lleol, i gynnal cymunedau lleol a swyddi, ac i ddarparu cyfleoedd hamdden. Mae angen hefyd inni helpu i amddiffyn pobl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Daeth hyn yn fwy amlwg yn ddiweddar yn sgil llifogydd arfordirol difrifol: mae 208,000 o adeiladau Cymru ym mherygl llifogydd.

Mae disgwyliad oes *iach* yn amrywio'n enfawr ar draws Cymru (57.1 mlynedd ym Mlaenau Gwent i 68.2 mlynedd yn Sir Fynwy). Mae gwneud mwy o weithgarwch corfforol yn gallu gwella iechyd corfforol a meddyliol, ac mae profi'r amgylchedd naturiol hefyd yn gallu bod yn llesol. O annog mwy o bobl i wneud mwy yn yr awyr agored, mae potensial i effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles pobl.

Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol. Er bod tlodi'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried mewn cyd-destun trefol yn aml, mae tlodi gwledig hefyd yn fater pwysig.

Mae amgylchedd Cymru yn lle gwych i ddysgu ynddo, ac i ddysgu amdano. Mae ysgolion, prifysgolion, colegau a'r cyhoedd i gyd yn defnyddio ein hadnoddau naturiol fel adnodd dysgu penigamp. Byddwn yn helpu pobl i ailgysylltu â'n hadnoddau naturiol, a deall eu pwysigrwydd a'u perthnasedd i fywyd bob dydd. Gall codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol helpu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a helpu i warchod ein hamgylchedd ar gyfer y dyfodol.

Mae'n hanfodol fod y cyfleoedd rydym ni'n eu darparu, neu'n helpu eraill i'w darparu, mor gynhwysol â phosibl. Rhaid iddynt ystyried pobl o wahanol oedran, o wahanol hil neu ffydd, gydag anableddau, neu gydag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym am ddarparu ar gyfer ystod eang o bobl a darparu cyfleoedd i'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu.



// Byddwn yn helpu pobl i ailgysylltu â'n hadnoddau naturiol, a deall eu pwysigrwydd.

Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol:

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn integreiddio'r cyfleoedd hamdden rydym ni'n eu cynnig ar dir a dŵr gyda darparwyr eraill, gan ategu'u harlwy nhw yn hytrach na chystadlu yn eu herbyn
- Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith presennol mewn ardaloedd trefol i sicrhau bod mannau gwyrdd yn asedau gwerthfawr i'n trefi a'n dinasoedd
- Byddwn yn gweithio'n agosach mewn partneriaeth â chymunedau, ac yn gwrandao ar ddinasyddion lleol a gweithio gyda nhw, a hynny'n cynnwys pobl o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan dargedu ein hymdrechion at y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono:

- Byddwn yn targedu ein gweithgareddau datblygu mynediad a hamdden at y safleoedd hynny sy'n fwyaf poblogaidd gyda phobl neu sydd yn ein cymunedau tlotaf
- Byddwn yn lleihau'r seilwaith ymwelwyr mwy costus mewn mannau lle byddai'r galw'n awgrymu darpariaeth lai ffurfiol, dan arweiniad defnyddwyr, ynghyd â gwybodaeth dda
- Byddwn yn gwreiddio ein rôl addysgu yn ein gweithgareddau cyflawni craidd ac yn cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol gyda gwaith maes, yn unol â'n hymrwymiad i hyrwyddo a hybu cydraddoldeb i holl bobl Cymru.

Ein dangosyddion

Dangosydd Pa: Perygl llifogydd a rheoli llifogydd

- Nifer yr eiddo sydd â thebygolrwydd is o gael llifogydd.

Dangosydd Pb: Hamdden ac iechyd a lles

- Y ganran o'r bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n defnyddio'r awyr agored ar gyfer hamdden yn unol â'r lefelau isafswm o weithgarwch corfforol sy'n ofynnol i gael bywyd iach.

Dangosydd Pc: Agosrwydd man gwyrdd

- Y ganran o'r boblogaeth sydd â mynediad at fan gwyrdd naturiol, megis coetir, parciau neu fan agored.

Dangosydd Pd: Gwirfoddoli a datblygu sgiliau yn yr amgylchedd

- Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cael eu cynnal yn uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu'u hwyluso drwy Coetiroedd a Chi (a chynlluniau olynol).

Dangosydd Pe: Addysgu, dysgu a sgiliau sector

- Nifer y sefydliadau addysgol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r amgylchedd ar gyfer addysg, dysgu a sgiliau sector.

Dangosydd Pf: Effeithiau economaidd

- Buddion ac effaith economaidd hamdden yng Nghymru, gan ddefnyddio'r Llwybr Arfordir fel enghraifft
- Gwerth cyfleoedd masnachol lleol ar raddfa fach sy'n cael eu galluogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y tiroedd a'r dyfroedd y mae'n eu rheoli.

Ein hymrwymiadau

P1: Byddwn yn ymateb mewn ffordd effeithiol, wedi'i chyd-drefnu, i ddigwyddiadau a risgiau amgylcheddol, megis llifogydd, digwyddiadau llygru ac achosion o glefydau, ac yn helpu i leihau'r perygl o lifogydd i bobl ac eiddo drwy, er enghraifft:

- Adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu amddiffynfeydd rhag llifogydd a rhoi ffyrdd arloesol ar waith o reoli ucheldir ac iseldir er mwyn dal ac arafu dŵr, i helpu i leihau'r perygl o lifogydd i gymunedau
- Codi ymwybyddiaeth pobl o'u perygl o lifogydd a pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd
- Lleihau'r nifer o ddigwyddiadau llygru difrifol drwy ddull gweithredu seiliedig ar risg, sydd wedi'i flaenoriaethu
- Cynnal ein cyfrifoldebau er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ein coedwigoedd, ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ac yn gysylltiedig â'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yr ydym yn eu rheoli.

P2: Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd hamdden a mynediad a fydd yn cyfrannu at wella iechyd a lles pobl drwy, er enghraifft:

- Ddatblygu ein strategaeth hamdden a mynediad a'i rhoi ar waith, gan gwmpasu pob agwedd o'n swyddogaethau hamdden a chanlyniadau busnes perthnasol
- Defnyddio cyfleoedd hamdden ar y tiroedd a'r dyfroedd rydym ni yn eu rheoli i wella lles meddyliol a chorfforol pobl. Gwneir hyn drwy weithio mewn ffordd deg, gyda rhaglen o weithgareddau y cytunir arni gyda'n rhanddeiliaid, yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a rhwydweithiau hamdden awyr agored
- Rhoi cynlluniau ar waith ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnwys Rhaglen Ddatblygu Llwybr Arfordir Cymru.

P3: Byddwn yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu byw a gweithio mewn amgylchedd safonol ac ymweld ag amgylchedd felly, yn cynnwys y rheini mewn ardaloedd trefol a'r rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a byddwn yn sianelu budd economaidd i helpu i drechu tlodi drwy, er enghraifft:

- Weithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu rhaglen o brosiectau, yn cynnwys prosiect 'Cynefin' Llywodraeth Cymru, i wella ansawdd amgylcheddol yn lleol a darparu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys prosiectau adfywio trefol
- Gweithio gyda chymunedau lleol i ddenu mwy o bobl i ymwneud â phenderfyniadau seiliedig ar le, a datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'n gilydd gan ddefnyddio egwyddor perchenogaeth gymunedol a chydgyhyrchu, yn enwedig gerllaw tiroedd a dyfroedd rydym ni'n eu rheoli
- Gwneud yn fawr o fudd economaidd ein gwaith, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chymunedau eraill lle mae tystiolaeth o amddifadedd.

P4: Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd i bobl fwynhau'r amgylchedd, dysgu ynddo, a dysgu amdano, drwy, er enghraifft:

- Ddarparu cyfleoedd dysgu a sgiliau, cyngor ac arweiniad, yn yr amgylchedd ac am yr amgylchedd, yn cynnwys ymweliadau i bob oedran a gallu ac yn arbennig ar gyfer pobl ifanc
- Sefydlu cysylltiadau â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod deunyddiau ac ymweliadau addysgol, yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, yn briodol a bod sylw'n cael ei roi i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru
- Datblygu ein dull o ymdrin â gwirfoddoli drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill, a gweithio gyda rhwydweithiau gwirfoddolwyr sy'n bodoli'n barod.

Adnoddau ar gyfer 2014-15:**Gwariant:** £50 miliwn **Staff:** 428 FTE

Da i Fusnes...

// Beth mae 'Da' yn ei olygu: bod yn 'lleoliad delfrydol' i fusnes a menter, yn fan lle caiff yr arferion rheoli amgylcheddol gorau eu mabwysiadu a'u hannog.



Da i Fusnes



Beth mae 'Da' yn ei olygu: bod yn 'lleoliad delfrydol' i fusnes a menter, yn fan lle caiff yr arferion rheoli amgylcheddol gorau eu mabwysiadu a'u hannog.

Sialensiau a Chyfleoedd

Mae ein rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod y rhan fwyaf o'r busnesau rydym ni'n gweithio gyda nhw yn rhannu ein hamcanion amgylcheddol ac y byddent yn croesawu mwy o gydweithio, a threfniadau symlach. Mae hyn yn golygu gweithio gyda'n gilydd o'r cychwyn, gan rannu gwybodaeth a chyngor, cysylltu â chyrff masnach neu bartneriaethau, ac ystyried busnesau gwledig ac amaethyddol yn ogystal â diwydiant. Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn chwilio am atebion ac ymatebion amserol, gan warchod a gwella'r amgylchedd yr un pryd. Byddwn yn gyson, teg a thryloyw ym mhopeth a wnawn a byddwn yn ystyried materion trawsffiniol. Mae angen inni ddefnyddio ein hadnoddau naturiol yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth inni symud tuag at economi carbon isel, yn cynnwys cynhyrchu ynni.

Mae 'twf gwyrdd' yn flaenoriaeth o ran gweithredu, ac mae'n allweddol i ddyfodol Cymru. Yn ogystal â thwf economaidd, mae'n creu cyfleoedd lleol i adfer cymunedau, a'r gallu i ddefnyddio'n hadnoddau naturiol i wireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran creu swyddi a thwf a threchu tlodi. Mae ystyried arferion caffael sy'n caniatáu mynediad i fentrau bach, lleol a chymdeithasol yn bwysig yma, ynghyd â chael gwerth am arian. Yn ogystal â swyddi, gall yr amgylchedd ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau sy'n gallu arwain at gyflogaeth mewn sectorau eraill.

Mae rhyw 1,700 o safleoedd diwydiannol, gwastraff a dŵr yn cael eu rheoleiddio ar draws Cymru. Ar hyn o bryd caiff 48 y cant o wastraff masnachol a diwydiannol ei aildefnyddio neu'i ailgylchu, ond mae 36,000 achos o dipio anghyfreithlon bob blwyddyn. Gall gwastraff fod yn adnodd gwerthfawr – yn darparu ynni, neu ddefnyddiau adeiladu, er enghraifft.

Rydym yn marchnata dros 878,000 metr ciwbig o bren bob blwyddyn, yn cyflawni 300 o gontractau cynaeafu, ac yn darparu cyflogaeth yn y sector coedwigaeth drwy ein contractwyr a'r busnesau sy'n ychwanegu gwerth pellach i'r pren yr ydym yn ei werthu. Rydym hefyd yn creu incwm drwy feysydd parcio a chyfleusterau eraill i ymwelwyr ar ein prif safleoedd hamdden. Rydym yn rhedeg cynllun ffioedd trwyddedu sy'n gweithio ar sail adennill costau. Rydym yn cynnal busnesau a mentrau ar yr ystâd yr ydym yn ei rheoli, yn cynnwys ynni adnewyddadwy megis datblygiadau ffermydd gwynt a phŵer trydan dŵr. Yn ogystal â cheisio datblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm. Gall yr incwm gael ei ailfuddsoddi wedyn er budd ein hadnoddau naturiol a'r amgylchedd.

// Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn chwilio am atebion ac ymatebion amserol, gan warchod a gwella'r amgylchedd yr un pryd.

Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol:

- Ein nod yw defnyddio mwy ar ddull rheoli ar lefel yr ecosystem seiliedig ar risg, a fydd yn golygu ffyrdd newydd o weithio gyda'n cwsmeriaid ac o fewn y sefydliad
- Byddwn yn darparu cyngor cynllunio clir, gyda thystiolaeth dda yn gefn iddo, a phenderfyniadau mewn da bryd er mwyn helpu i gyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio mwy ar ddylanwadu ar gynlluniau strategol cenedlaethol a lleol a llai ar ymatebion tactegol. Byddwn hefyd yn ceisio creu fframwaith sy'n hybu datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol ac mewn mannau priodol
- Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth reoleiddio newydd a fydd yn annog gwell perfformiad amgylcheddol gan fusnesau sy'n cael eu rheoleiddio, Bydd hefyd yn lleihau'r nifer o safleoedd didrwydded sy'n peri risg arwyddocaol i'r amgylchedd. Gwneir hyn drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor, ac ystyried materion trawsffiniol
- Byddwn yn gweithio gydag eraill i ganfod cyfleoedd newydd ar gyfer busnes a swyddi, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, a byddwn yn tyfu ein hincwm i'w ailfuddsoddi yn ein blaenoriaethau uchaf. Bydd rheoli'r adnoddau naturiol sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gennym ni mewn modd cynaliadwy yn golygu bod modd arddel a chefnogi datblygiadau a buddsoddiadau busnes arloesol.

Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono:

- Byddwn yn darparu ymatebion cynllunio strategol ar lefel leol a chenedlaethol, gan ddibynnu ar gyngor sefydlog ac ymdrin ag ardal yn ei chyfanrwydd yng nghyswllt y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio unigol
- Byddwn yn symleiddio ein prosesau trwyddedu, gan ddibynnu ar drwyddedau symlach i'r rhai y mae eu perfformiad yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol
- Byddwn yn cryfhau ac yn gwella'r rheolaeth o safleoedd gwarchodedig fel eu bod mor effeithiol, cryf ac amrywiol ag y gallant fod cyn inni geisio rhai newydd. Byddwn hefyd yn symleiddio'r broses o'u dynodi
- Byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion i godi ffioedd am gyngor cyn ymgeisio ac yn sicrhau bod ein ffioedd rheoleiddio yn cydymffurfio ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' ac yn clirio'r costau rheoleiddio yn yr ystyr ehangaf.



Ein dangosyddion

Dangosydd Ba: Prosesu ceisiadau

- Penderfynu ar geisiadau am drwydded/caniatâd o fewn yr amserlenni statudol.

Dangosydd Bb: Rheoli safleoedd

- Y gyfran o safleoedd sy'n gwneud gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio y mae eu perfformiad amgylcheddol yn gwella.

Dangosydd Bc: Dod â safleoedd i mewn i gyfundrefn reoli

- Y nifer o safleoedd didrwydded sy'n peri risg arwyddocaol i'r amgylchedd a gaiff eu tynnu i mewn i gyfundrefn reoli, neu'u cau.

Dangosydd Bd: Ein rôl fel ymgynghorai statudol

- Y gyfran o ymgynghoriadau cynllunio yr ymatebir iddynt o fewn y safon gwasanaeth y cytunwyd arni.

Dangosydd Be: Cynhyrchu incwm

- Incwm o weithgareddau menter Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ein hymrwymiaidau

B1: Fel rheoleiddiwr, byddwn yn darparu cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth a phenderfyniadau clir mewn da bryd i alluogi busnesau yng Nghymru i weithredu'n effeithiol a chyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf drwy, er enghraifft:

- Barhau i ddatblygu ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid fel pwynt cyswllt sengl i'n cwsmeriaid a chynyddu ein sylfaen gwybodaeth yn barhaus
- Datblygu ein systemau rheoleiddio, yn cynnwys cyfleoedd Rheoleiddio'n Well er mwyn symleiddio'r gwasanaethau a lleihau'r costau i gwsmeriaid
- Symleiddio ein gweithdrefnau gweinyddol o ran dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, i wneud y rhain yn fwy effeithlon.

B2: Byddwn yn gweithio gyda busnes, diwydiant a llywodraeth i gefnogi datblygu seilwaith allweddol ac i annog datblygu yn y lleoedd iawn er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy drwy, er enghraifft:

- Ddatblygu un gwasanaeth trwyddedu a chaniatáu, yn seiliedig ar safonau a phrosesau cyffredin, i gael ei ddylunio ar y cyd â'n rhanddeiliaid
- Rhoi ein cynllun pontio o ran Cynllunio Gwlad a Thref ar waith, yn cynnwys ein trefn newydd er darparu cyngor ymgynghorol ym maes cynllunio
- Rhoi cyngor ynglŷn â Chynlluniau Datblygu Lleol, strategaethau rhanbarthol a'r fframwaith datblygu y mae Llywodraeth Cymru yn ei greu ar hyn o bryd.

B3: Byddwn yn gweithio'n agos gydag eraill i ganfod, datblygu a chefnogi cyfleoedd busnes newydd a chyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a hyfforddiant, er mwyn creu gweithlu medrus yng Nghymru drwy, er enghraifft:

- Hwyluso cyfleoedd busnes newydd, datblygu ein gallu ym maes menter, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi cynlluniau, yn awr ac i'r dyfodol, yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn ogystal â chyfleoedd hamdden a thwristiaeth
- Comisiynu astudiaeth o'n heffaith ni ar y buddion economaidd cymdeithasol sy'n deillio o ddatblygiadau ynni
- Cefnogi'r rhaglen ynni gwynt a rhoi ein rhaglen hydro-electrig ar waith ar dir rydym ni'n ei reoli.

B4: Byddwn yn cynyddu'n hincwm o fewn ein diben, gan ailfuddsoddi'r incwm hwnnw i ddarparu budd cyhoeddus pellach drwy, er enghraifft:

- Gwblhau ein hastudiaethau dichonoldeb o syniadau newydd yn ein Fframwaith Menter, gan edrych ar chwaraeon moduro, pren â gwerth ychwanegol, tai, telathrebu, canolfannau ymwelwyr, ffilmio, mwynau a hamdden
- Marchnata coed o ystâd coetir Llywodraeth Cymru yn unol â'n strategaeth farchnata: rhyw 878,000 metr ciwbig o goed safadwy, yn eu rhisgl; o hynny, bydd 332,000 metr ciwbig yn llarwydd
- Cynhyrchu incwm allanol drwy i'n labordy ddarparu gwasanaeth dadansoddi.

Adnoddau ar gyfer 2014-15:
Gwariant: £34 miliwn Staff: 388 FTE



Sefydliad Da...

// Beth mae 'Da' yn ei olygu: yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau creiddiol effeithiol; yn dryloyw yn ein penderfyniadau ac yn gwella'n gwasanaeth i gwsmeriaid a phartneriaid yn barhaus, gan feincnodi ein hunain yn erbyn y goreuon.



Sefydliad Da

// Beth mae 'Da' yn ei olygu: yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau creiddiol effeithiol; yn dryloyw yn ein penderfyniadau ac yn gwella'n gwasanaeth i gwsmeriaid a phartneriaid yn barhaus, gan feincnodi ein hunain yn erbyn y goreuon.


Sialensiau a Chyfleoedd

Fel sefydliad newydd, mae angen inni ddatblygu ein hunain a'n ffyrdd o weithio. Mae angen inni ddatblygu ein gallu strategol a thechnegol i sefyll ar ein traed ein hunain, a gwneud penderfyniadau yng Nghymru ar gyfer Cymru drwy leihau ein dibyniaeth ar systemau etifeddol. Dim ond drwy fabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn sail i'n penderfyniadau y gallwn fynd i'r afael â llawer o'n sialensiau busnes. Bydd angen inni ddatblygu ein hased pwysicaf, ein staff, i'w helpu nhw i ddeall beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol a'u cynorthwyo i arddel y ffordd newydd hon o weithio.

Mae angen inni ddal i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid a gweithio'n agosach fyth gyda rhanddeiliaid. Rydym am fod yn deg, yn gyson ac yn dryloyw yn ein trafodion gyda phartneriaid a gweithio gyda nhw i gael y canlyniadau gorau iddyn nhw ac i'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Bwriadwn fanteisio ar botensial technoleg ddigidol i yrru ein costau i lawr a gwella gwasanaethau'n allanol i gwsmeriaid ac yn fewnol i'r staff.

Er mwyn gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael inni yn ein gwaith, mae angen inni fod yn fwy effeithlon, entrepreneuriaid ac arloesol. Mae angen inni gynhyrchu rhagor o incwm i'w ailfuddsoddi yn ein gwasanaethau, lle gallwn fanteisio ar gyfleoedd sy'n cyd-fynd â'n diben a'n blaenoriaethau. Mae angen inni weithio gyda'n staff a'r undebau i greu disgwyliadau yr ydym yn eu rhannu o ran perfformiad ac ymrwymiad i'n gwerthoedd a'n diben.

Mae gennym raglen sylweddol o newid er mwyn sefydlu ein gallu annibynnol llawn ein hunain yn ogystal â datblygu ein diwylliant, ffyrdd o weithio, systemau a phrosesau, a sicrhau ein bod yn gwneud yr arbedion a'r newidiadau effeithlonrwydd sy'n ofynnol gennym dros y deng mlynedd nesaf. Rydym am fod yn sefydliad sy'n hyblyg ei ymagwedd, yn barod i ymateb i anghenion cwsmeriaid, ac yn cyflawni canlyniadau yn y ffordd fwyaf cost effeithiol. Pan fyddwn wedi gwneud y newidiadau hyn, bydd gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a lefel uwch o effeithlonrwydd yn amlwg ar draws ein holl fusnes.



// Rydym am fod yn sefydliad sy'n hyblyg ei ymagwedd, yn barod i ymateb i anghenion cwsmeriaid, ac yn cyflawni canlyniadau yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.

Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol:

- Bydd gennym ffocws cryf ar gyflawni ein blaenoriaethau busnes i Gymru; bydd ein penderfyniadau, y ffordd y caiff adnoddau eu dyrannu a'r ffordd y caiff perfformiad ei reoli i gyd yn gyson â'i gilydd er mwyn cyflawni hyn
- Bydd cydgyssylltu'n gwasanaethau yn fewnol yn help inni fod yn fwy effeithlon
- Byddwn yn dod yn fwy entrepreneuriaidd yn y ffordd yr ydym yn cyflenwi ein gwasanaethau craidd a hefyd wrth ddatblygu cyfleoedd newydd sy'n cyd-fynd â'n diben
- Byddwn yn ystyried ffyrdd gwahanol o gyflenwi ein gwasanaethau cymorth busnes; ffyrdd mwy effeithlon, a mwy o gysylltiad â phartneriaid a sefydliadau eraill.

Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono:

- Byddwn yn lleihau'r pwyntiau cyswllt niferus â'r sefydliad neu ddulliau mewnol eu gogwydd sy'n aneffeithlon ac oeraidd
- Byddwn yn dibynnu llai ar broses a mwy ar rymuso ein staff ac ymddiried ynddynt i gyflawni'n blaenoriaethau
- Bydd llai o systemau trafodion seiliedig ar bapur; byddwn yn buddsoddi mewn dulliau digidol sy'n fwy effeithlon ac effeithiol
- Bydd llai o gyhoeddi anstatudol nad yw'n help uniongyrchol i gyflawni'n blaenoriaethau
- Byddwn yn adolygu ein modelau llywodraethu ariannol ac yn eu symleiddio fel ei bod yn haws gwneud busnes â ni a bod ein prosesau'n haws eu rhedeg. Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, byddwn yn ceisio cyrraedd lefelau meincnod Swyddfa'r Cabinet o ran ein swyddogaethau cymorth, neu ragori arnynt.

Ein dangosyddion

Dangosydd Oa: Mynegai bodlonrwydd cwsmeriaid a rhanddeiliaid

Dangosydd Ob: Mynegai ymgysylltu staff

Dangosydd Oc: Cynnydd tuag at dargedau meincnod Llywodraeth Cymru/Swyddfa'r Cabinet i wasanaethau cymorth, yn cynnwys adeiladau

Dangosydd Od: Cyflawni'r Achos Busnes diwygiedig gan dracio buddion ariannol a buddion nad ydynt yn rhyddhau arian

Dangosydd Oe: Lleihau ôl troed carbon y sefydliad

Ein hymrwymiaidau

O1: Byddwn yn gwella'n gwasanaethau i gwsmeriaid a'n perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid yn barhaus drwy weithredu agored a chydweithio, drwy, er enghraifft:

- Ddarparu cymorth busnes a gofal cwsmeriaid effeithlon ac effeithiol i staff a chwsmeriaid
- Sicrhau bod ein cyfathrebu â rhanddeiliaid a'n gwaith gyda nhw yn effeithiol ac yn gyson â'n Cynllun Busnes
- Rhoi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.

O2: Byddwn yn gweithio'n fwy effeithlon er mwyn cynyddu'n hincwm, o fewn ein diben, er mwyn gallu defnyddio'r arbedion hyn i ddarparu mwy o fudd i'r cyhoedd drwy, er enghraifft:

- Sefydlu trefn hunanwasanaeth a dulliau digidol o ran ein gwasanaethau i gwsmeriaid, lle mae hyn yn gwella perfformiad ac yn lleihau costau
- Cyflawni ein strategaethau o ran ein fflyd drafnidiaeth, rheoli cyfleusterau, diogelwch ac adeiladau, i sicrhau ein bod yn ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon, â'i ffocws ar y cwsmer
- Ennill a chynnal achrediad ISO 14001 o ran ein rheolaeth amgylcheddol a bod yn esiampl i eraill mewn meysydd fel defnyddio carbon, gwastraff a dŵr.

O3: Byddwn yn datblygu diwylliant sy'n cynnal ein gwerthoedd, yn cynyddu ein sylfaen sgiliau, yn ehangu ein hyblygrwydd a'n hamrywiaeth, ac yn gwella ein safonau iechyd a diogelwch drwy, er enghraifft:

- Ddatblygu'r sefydliad, a helpu staff i adlewyrchu'r gwerthoedd, yr amrywiaeth a'r diwylliant yr ydym am eu harddel
- Cynyddu gallu'r gweithlu drwyddo draw, yn cynnwys arweinyddiaeth strategol drwy fuddsoddi mewn dysgu a datblygu
- Parhau i ddarparu swyddi medrus o ansawdd uchel yng Nghymru drwy ddatblygu'r staff presennol yn barhaus a thrwy barhau â chynlluniau prentisiaeth, a gweithio mewn partneriaeth â ddarparwyr dysgu a hyfforddiant i hyrwyddo a datblygu cyflogaeth yn sector yr amgylchedd.

Adnoddau ar gyfer 2014-15:
Gwariant: £37 miliwn Staff: 301 FTE

Pa mor dda ydym ni'n gwneud? Rhoi gwybod am ein cynnydd

Fel sefydliad cyflawni, mae angen inni allu dangos pa mor dda rydym ni wedi gwneud, yn unigol ac ar y cyd â'n partneriaid, ac a yw pobl a chymunedau ar eu hennill o ganlyniad.

Mae ein sgysrsiau gyda rhanddeiliaid a staff wedi dangos yn glir inni beth mae'n cwsmeriaid am inni ei wneud, beth mae llwyddiant yn ei olygu, ac maent wedi ein galluogi i ddatblygu set o ddangosyddion i ddangos ein cyfraniad ni at y canlyniadau yr ydym yn eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys y dangosyddion lefel uchel hyn.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi set o fesurau perfformiad, yn deillio o'n Cynllun Busnes, i ddangos ein hallbynnau – faint rydym ni wedi'i wneud, pa mor dda ydym ni wedi'i wneud, a beth yw'r canlyniadau. Byddwn yn cyhoeddi hyn fel ein Dangosfwrdd Corfforaethol.

Mae Cynlluniau Cyflawni ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth unigol, a datganiadau unigol o gyfraniad ar gyfer pob aelod staff, yn eistedd o dan y Cynllun Busnes a'r Cynllun Corfforaethol. Mae dolen gyswllt glir felly o'n canlyniadau ni ein hunain a'r rhai yr ydym yn eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru reit drwodd hyd at swydd aelod unigol o'r staff.

Gyda'i gilydd mae'r Cynllun Corfforaethol, gyda'i ddangosyddion, a'r Cynllun Busnes, gyda'i Ddangosfwrdd Corfforaethol, yn darparu Fframwaith Perfformiad sy'n ein galluogi i fonitro ein gwaith a'i effaith ar ein hamgylchedd.

Byddwn yn agored wrth roi gwybod sut yr ydym wedi cyflawni yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Busnes. Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol a bydd ein Bwrdd yn craffu'n gyhoeddus ar ein perfformiad o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Gydag unrhyw sylwadau neu ymholiadau pellach, neu i gael copi o'r ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â **ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**





**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r
ddogfen hon gyda chaniatâd
Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw

**Os hoffech gael y ddogfen hon mewn
fformat gwahanol anfonwch ebost at
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)**

